# CHWALU'R JARGON CARBON

Dyma rhai termau cyffredin a ddefnyddir yn aml mewn perthynas ag ôl-troed carbon, ynghyd ag eglurhad ohonynt -

**Nwyon tŷ gwydr (GHGs) -** nwyon o fewn yr atmosffer sy'n dal gwres. Y tri phrif nwy tŷ gwydr mewn amaethyddiaeth yw carbon deuocsid ($CO_2$), methan ($CH_4$) ac ocsid nitrws ($N_2O$)

**Sero net -** y balans rhwng y cyfanswm o allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a'r cyfanswm o allyriadau nwyon tŷ gwydr a ddiddymir o'r atmosffer

**Potensial o ran Cynhesu Byd-eang -** term a ddefnyddir i ddisgrifio effaith y nwyon tŷ gwydr amrywiol ar gynhesu atmosfferig dros gyfnod o amser, mewn cymhariaeth gyda $CO_2$

**Gwerth cyfwerth carbon deuocsid ($CO_2$-eq) -** uned safonedig a ddefnyddir i allu cymharu gwahanol nwyon tŷ gwydr yn uniongyrchol gyda'i gilydd o safbwynt eu Potensial o ran Cynhesu Byd-Eang

**Dwysedd allyriadau -** nifer yr allyriadau a gynhyrchir o'i gymharu â dwysedd cynnyrch (e.e. kg $CO_2$-eq allyriadau / kg cynnyrch)

**Cyfanswm allyriadau -** ar sail fferm, cyfanswm yr allyriadau a gynhyrchir o ganlyniad i weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r fferm

**Sgôp -** categorïau grwpio allyriadau, yn ddibynnol ar o le maent yn dod

**Allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi -** allyriadau yn gysylltiedig â'r cynhyrchiant a thrawsgludiad o fewnbynnau wedi'u prynu i mewn e.e. gwrtaith cemegol a dwysfwyd

**Allyriadau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi -** allyriadau a gynhyrchir heibio giât y fferm e.e. pacio a dosbarthu

**Lleihau allyriadau -** y broses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir

**Atafaeliad carbon -** proses naturiol ble mae carbon deuocsid yn cael ei ddal a'i ddiddymu o'r atmosffer, ac yna ei storio mewn coed, gwrychoedd a phriddoedd

**Stoc garbon -** swm carbon a storir mewn coed, gwrychoedd a phriddoedd

**Sinc carbon -** a term to describe trees, hedges and soils if they are sequestering carbon (i.e. that they absorb more carbon than they release into the atmosphere)

**Ffynhonnell garbon -** pan mae mwy o garbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer na'r swm sydd yn cael ei amsugno o'r atmosffer

**Niwtraleiddio carbon -** dull o ddigolledu ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir (e.e. drwy atafaeliad ar y fferm, drwy brynu credydau carbon)

**Credydau carbon -** o safbwynt ffermio, dull o dderbyn incwm ar gyfer y swm o garbon ac atafaelir ar y fferm

**Marchnadoedd carbon -** system ar gyfer masnachu credydau carbon

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

FARMING connect
cyswllt FFERMIO